*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Hysbysiad Preifatrwydd

Yn yr hysbysiad hwn, mae'r termau "Coleg Caerdydd a'r Fro" a "y Coleg" yn cyfeirio at weithgareddau Coleg Caerdydd a'r Fro a'i is-gwmnïau CF10 Retail Limited, ICAT Limited a South East Wales City Region ATA Limited. Nid yw'r hysbysiad hwn yn berthnasol i ACT Training, sydd wedi rhyddhau hysbysiad preifatrwydd ar wahân.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn berthnasol i'r wybodaeth mae'r Coleg yn ei chasglu am unigolion neu sefydliadau, gan gynnwys rhai sy'n:

- Defnyddio gwefan y Coleg;
- Defnyddio gwasanaethau'r Coleg;
- Gofyn am wybodaeth gan y Coleg;
- Ymgymryd â chyfnod o astudio drwy'r Coleg, gan gynnwys cyn-fyfyrwyr;
- Prynu hyfforddiant neu wasanaethau eraill gan y Coleg;
- Cymryd myfyriwr o'r Coleg ar brofiad gwaith neu leoliad;
- Cyflogi prentis drwy'r Coleg;
- Gyflogedig gan y Coleg;
- Gwasanaethu fel llywodraethwyr y Coleg.

Os gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth bersonol i ni, ni fydd ond yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd y disgrifir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data dataprotection@cavc.ac.uk.

Mae'r math o wybodaeth y mae'r Coleg yn ei chasglu, yn ei dal a'i rhannu yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Wybodaeth bersonol (megis enw, rhif myfyriwr, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol).
- Gwybodaeth gyswllt (a all gynnwys rhif ffôn, ebost a chyfeiriad post).
- Gwybodaeth Addysgol (gan gynnwys cymwysterau, graddau rhagweledig, anghenion cefnogi dysgu, gwybodaeth am bresenoldeb (nifer yr absenoldebau a'r rhesymau) a chyflawniadau unigol).
- Nodweddion (megis rhywedd - gan gynnwys prun ai a yw yr un fath â phan gawsant eu geni - oedran, ethnigrwydd, iaith gyntaf, cenedligrwydd, gwlad geni a chymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim).



| Adolygiad Rhif: | 2 |
|---|---|
| Dyddiad Adolygu Diwethaf: | 01/03/2023 |
| Dyddiad Adolygu Nesaf: | 01/03/2024 |

- Gwybodaeth ariannol gan gynnwys manylion banc.
- Gwybodaeth am hoffterau personol a diddordebau.
- Gwybodaeth am gwmni (cofnodion ariannol, staff, datblygiad proffesiynol staff).
- Data defnyddio gwefannau.
- Gwybodaeth gytundebol staff (dyddiad cychwyn, oriau a weithiwyd, swydd, gwybodaeth am rolau a chyflog, dyddiau gwyliau blynyddol y mae hawl iddynt, hanes cyflogaeth a datblygiad proffesiynol).
- Delweddau camera cylch cyfyng sy'n cael eu dal yn rheolaidd yn eiddo'r Coleg at bwrpas atal troseddu, diogeledd ac iechyd a diogelwch.

## Sut rydym yn defnyddio'r data hwn

Mae'r Coleg yn defnyddio'r data fel a ganlyn:

- Er mwyn prosesu ceisiadau, cofrestriadau a rhaglenni a chontractau datblygu'r gweithlu.
- Ar gyfer cofnodion mewnol y Coleg ei hun fel y gall ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill.
- Er mwyn cysylltu gydag unigolion mewn ymateb i ymholiad penodol.
- Er mwyn datblygu gwasanaethau'r Coleg er budd dysgwyr.
- Er mwyn cysylltu gydag unigolion ynghylch gwasanaethau, cynnyrch, cynigion a phethau eraill a ddarperir gan y Coleg y tybir eu bod yn berthnasol.
- Er mwyn cysylltu gydag unigolion dros e-bost, ffôn neu drwy'r post at bwrpas ymchwil
- Er mwyn cysylltu gydag unigolion wedi iddynt gwblhau eu rhaglen ddysgu er mwyn sefydlu a ydynt wedi mynd ymlaen i gyflogaeth neu wedi parhau gyda hyfforddiant neu addysg bellach ac i'w gwahodd i gymryd rhan mewn gweithgareddau alumni'r Coleg.

Mae'n bosib y bydd y Coleg yn rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi sydd heb fod yn sensitif gyda sefydliadau eraill fel a ganlyn:

- I ddysgwyr perthnasol, bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion ariannu.
- I ddysgwyr perthnasol, bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i asiantaethau Llywodraeth y DU (e.e. Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA) a'r Adran Addysg) yn unol â gofynion ariannu.
- Mae'r wybodaeth a ddefnyddir at bwrpas rhediad yr adrannau hyn o'r Llywodraeth, ac er mwyn cwrdd â chyfrifoldebau statudol, gan gynnwys o dan y Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Fe'i defnyddir yn ogystal mewn cydweithrediad gyda'r sefydliadau priodol, er mwyn creu a chynnal Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) a Chofnod Dysgu Personol (PLR), sy'n galluogi i'r Coleg gael mynediad i unrhyw gymwysterau blaenorol sy'n cael eu storio ar y cofnod PLR ar gyfer dysgwyr.
- At bwrpas gweinyddol, darparu arweiniad o ran gyrfaoedd a mathau eraill o arweiniad, ac at bwrpas ystadegol ac ymchwil sy'n berthnasol i addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a diogelu. Dim ond pan mae'r rhannu yn cydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 2018 y bydd hyn yn digwydd.

Ni fydd y Coleg, ar unrhyw adeg, yn cymryd yn ganiataol y caniatâd i ddefnyddio gwybodaeth sy'n cael ei darparu ar gyfer unrhywbeth heblaw am y rhesymau a nodwyd yma.

Mae'n bosib y bydd Awdurdod Rheoli'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF), neu ei asiantaethau, yn cysylltu gydag unigolion er mwyn ymgymryd â gwaith ymchwil a gwerthuso i sicrhau effeithiolrwydd y rhaglen. Mae'n bosib y bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r ESF at y pwrpas hwn.

Ni fyddwn yn cadw nac yn trosglwyddo eich data personol y tu allan i Ewrop.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi adnabod ei fod yn cwrdd â sawl sail gyfreithiol ar gyfer prosesu, fel y nodir yn Erthygl 6 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Yn gryno:

- Ar gyfer prosesu ymholiadau a cheisiadau i'r Coleg, y sail gyfreithlon yw'r buddiant dilys.
- Ar gyfer prosesu gwybodaeth sy'n berthnasol i raglen astudio unigolyn, y sail gyfreithlon yw'r buddiant dilys a gall hefyd fod yn gysylltiedig gyda chytundeb.
- Ar gyfer casglu gwybodaeth am ble yw pen y daith i unigolyn unwaith y maent wedi gadael y Coleg, y sail gyfreithlon yw'r buddiant dilys.
- Ar gyfer cysylltu gydag unigolion sydd wedi cwblhau cwrs yn y Coleg, y sail gyfreithiol yw caniatâd.

## Diogelwch

Bydd y Coleg yn dal gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Er mwyn atal gwybodaeth bersonol gael ei datgelu neu gael mynediad iddi, mae gan y Coleg gamau diogelu technegol yn cynnwys dulliau rheoli mynediad cadarn ac archwiliadau diogelwch rheolaidd.

Os yw gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda sefydliad arall (nodir y rhesymau dros wneud hyn yn yr adran isod) bydd yn sicrhau bod Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn ei le.

Mae'r Coleg yn dilyn gweithdrefnau llym er mwyn sicrhau ei fod yn prosesu pob gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

## Rhannu a Datgelu Gwyboaeth

Nid yw'r Coleg yn gwerthu nac yn benthyca gwybodaeth bersonol.

Mae'n bosib y bydd gwybodaeth o reidrwydd yn cael ei ddatgelu i aelodau priodol o staff Coleg Caerdydd a'r Fro ac i gyrff y llywodraeth (fel yr amlinellwyd eisoes).

Mae'r sefydliadau y gall Coleg Caerdydd a'r Fro rannu gwybodaeth bersonol â hwy yn cynnwys:

- Cyrff dyfarnu
- Tŷ'r Cwmnïau
- Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Addysg
- Gwasanaeth Cofnodion Dysgwyr
- Yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau
- Cyflogwyr
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)
- Sefydliadau addysg uwch
- Awdurdodau lleol
- Mailchimp
- Estyn
- Darparwyr pensiwn
- Yr Heddlu
- Ysgolion
- Is-gontractwyr
- UCAS

Mae'n bosib y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda thrydydd parti os yw mewn perthynas â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i'r unigolyn. Er enghraifft, mae'n bosib y gallai'r Coleg rannu gwybodaeth gyda chwmnïau ymchwil i'r farchnad sydd wedi eu cytundebu i ymgymryd â gwaith ar ei ran er mwyn asesu bodlonrwydd gyda gwasanaeth y Coleg. Pan fo'r Coleg yn gwneud hyn, bydd bob amser yn sicrhau bod Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn ei le.

Fel rhan o'r gofynion mynediad ar gyfer cwrs, neu os yw unigolyn yn gwneud cais am swydd gyda Choleg Caerdydd a'r Fro, yna mae angen i'r Coleg sicrhau geirda neu gael 'datgeliad' gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bydd yn rhoi gwybod am hyn i chi ymlaen llaw.

Nid yw caniatâd gan riant yn ofynnol. Mae'n bosib y byddai rhai eithriadau o safbwynt myfyrwyr gydag anawsterau dysgu dwys, myfyrwyr cyswllt ysgol a rhai sydd fel arall yn analluog i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae'r Coleg wedi canfod ei fod o fudd mawr i ddatblygiad person ifanc fel myfyriwr os yw'r Coleg yn gallu ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr. Y mae hi felly yn bwysig iawn ein bod yn cofnodi manylion rhieni/gofalwyr ar ei systemau.

Nid pes gan rieni/gofalwyr (nac unrhyw drydydd parti arall) yr hawl i wybodaeth myfyriwr yn awtomatig. Ni all y Coleg ond ryddhau gwybodaeth am ei myfyrwyr os yw'r caniatâd ar gyfer gwneud hyn wedi cael ei gofnodi ar system y Coleg.

Gofynnir am ganiatâd y myfyrwyr i rannu gwybodaeth gyda rhieni/gofalwyr ar y ffurflen gofrestru neu wrth gofrestru wyneb-yn-wyneb.

Gall myfyrwyr ychwanegu, newid neu ddiddymu eu caniatâd drwy ebostio dataprotection@cavc.ac.uk.

## Am ba hyd ydym ni'n cadw data?

Yn gyffredinol, byddwn yn cadw'r rhan fwyaf o'ch data personol cyhyd ag y byddwch yn ymgysylltu gyda ni, ac am gyfnod pellach fel y'i nodir yn y Weithdrefn Cadw Dogfennau, sydd i'w gweld ar wefan y Coleg.

## Ymwelwyr â'r wefan

Pan fydd rhywun yn ymweld â www.cavc.ac.uk bydd y Coleg yn casglu gwybodaeth log rhyngrwyd safonol a manylion am batrymau ymddygiad ymwelwyr. Rydym yn gwneud hyn i gael gwybod am bethau megis nifer yr ymwelwyr i wahanol rannau o'r wefan. Mae'n casglu'r wybodaeth mewn ffordd sydd ddim yn adnabod unrhywun. Os y bydd eisiau casglu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy drwy ei wefan yna gwneir hynny'n glir.

## Cwcis

Cwci yw ffeil fechan sy'n cael ei gosod ar yriant caled cyfrifiadur. Mae'n galluogi gwefan y Coleg i adnabod cyfrifiadur wrth i unigolyn edrych ar wahanol dudalennau ar y wefan.

Mae cwcis yn caniatáu i wefannau a chymwysiadau storio hoffterau er mwyn cyflwyno cynnwys, opsiynau neu ffwythiannau sy'n benodol ar gyfer unigolion. Maent hefyd yn galluogi'r Coleg i weld gwybodaeth, megis faint o bobl sy'n defnyddio'r wefan a pha dudalennau maent yn dueddol o ymweld â nhw.

Defnyddir yr holl gwcis ar y wefan hon yn unol â Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwyddeb Cyfathrebiadau Electronig) 2003 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb Cyfathrebu Electronig) (Diwygiad) 2011.

Nid yw cwcis yn darparu'r Coleg gyda mynediad i gyfrifiadur unigolyn nac unrhyw wybodaeth amdanynt, heblaw am yr hyn mae'n dewis ei rannu.

Gall unigolion ddefnyddio eu gosodiadau porwr rhyngrwyd er mwyn gweld sut mae gwefan y Coleg yn defnyddio cwcis. Os nad yw unigolyn am i wefan y Coleg gadw cwcis ar eu cyfrifiadur neu

ddyfais, dylent osod eu porwr gwe i wrthod cwcis. Fodd bynnag, nodwch os gwelwch yn dda, y gall gwneud hyn effeithio ar sut mae gwefan y Coleg yn gweithio. Mae'n bosib na fydd rhai tudalennau a gwasanaethau ar gael i'r unigolyn.

Os nad yw unigolyn wedi newid eu porwr i wrthod cwcis, yna bydd gwefan y Coleg yn gosod cwcis pan fydd yn ymweld â hi.

### Cwcis Gwefan Cymdeithasol

Rydym yn sefydlu cynnwys gan wefannau trydydd parti megis YouTube, Facebook ac X (Twitter gynt), ac felly gallwch "Hoffi" neu "Rannu" ein cynnwys ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn, fodd bynnag yn cynnwys gwybodaeth cwcis trydydd parti, a bydd eu preifatrwydd yn amrywio o un safle rhwydwaith cymdeithasol i'r llall, yn ogystal â'r gosodiadau preifatrwydd rydych chi wedi eu defnyddio ar gyfer y rhwydweithiau hynny.

Am ragor o wybodaeth, gweler y polisïau preifatrwydd y safle trydydd parti perthnasol.

### Cwcis Ystadegau Ymwelwyr:

Rydym yn defnyddio cwcis i ddadansoddi ystadegau ymwelwyr megis:

- Faint o bobl sydd wedi ymweld â'n gwefan.
- Pa dechnoleg porwr mae'r ymwelydd yn ei defnyddio.
- Pa dudalen mae'r ymwelydd yn edrych arni.
- Sut mae ymwelwyr yn cael eu cyfeirio at ein gwefannau.

## Rheoli gwybodaeth am unigolion

Pan mae unigolyn yn llenwi ffurflen neu'n darparu eu manylion ar wefan y Coleg, mae'n bosib y bydd mwy nag un blwch ticio fydd yn caniatáu iddynt:

- ddewis derbyn cyfathrebiadau marchnata gan y Coleg dros ebost, ffôn, neges destun neu drwy'r post.
- ddewis derbyn cyfathrebiadau marchnata gan bartneriaid trydydd parti dros ebost, ffôn, neges destun neu drwy'r post.

os yw unigolion wedi cytuno y gall y Coleg ddefnyddio'u gwybodaeth at bwrpas marchnata, gall unigolion newid eu meddwl yn hawdd, drwy un o'r dulliau hyn:

Datdanysgrifio drwy glicio ar y ddolen ym mhob ebost;

- Trwy e-bostio dataprotection@cavc.ac.uk;
- Trwy ysgrifennu atom, ar Y Swyddog Gwarchod Data, Coleg Caerdydd a'r Fro, Campws Canol y Ddinas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5FE.

## Dolenni o wefan y Coleg

Gall gwefan y Coleg gynnwys dolenni at wefannau eraill. Nodwch os gwelwch yn dda nad oes gan y Coleg unrhyw reolaeth dros wefannau y tu hwnt i www.cavc.ac.uk. Os yw unigolyn yn darparu gwybodaeth i wefan sy'n gysylltieidig gyda gwefan y Coleg, nid yw'n gyfrifol am warchod yr wybodaeth yna, na'i phreifatrwydd. Cynghorir unigolion i ddarllen polisi neu ddatganiad preifatrwydd gwefannau eraill cyn eu defnyddio.

## Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Coleg

Mae'r Coleg yn cadw manylion mae unigolion yn eu darparu er mwyn gallu cynnal rhaglenni astudio, Prentisiaethau, rhaglenni datblygu gweithlu a gwasanaethau eraill sy'n cwrdd ag anghenion penodol.

Nid yw ond yn defnyddio'r manylion hyn er mwyn darparu'r gwasanaeth mae'r unigolyn wedi gofyn amdano ac ar gyfer pwrpasau eraill sy'n uniongyrchol gysylltiedig. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd yn defnyddio gwybodaeth am bobl sydd wedi gwneud ymholiadau am gwrs, er mwyn cynnal arolwg i ganfod a ydynt yn hapus gyda safon y gwasanaeth maent wedi'i dderbyn, neu mae'n bosib y bydd yn defnyddio gwybodaeth am gyflogwr sy'n cynnig profiad gwaith i fyfyriwr, er mwyn cysylltu gyda hwy am gynllun Prentisiaeth newydd neu grant.

Mae'n bosib y bydd gwybodaeth o reidrwydd yn cael ei ddatgelu i aelodau priodol o staff Coleg Caerdydd a'r Fro ac i gyrff y llywodraeth (er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol y Coleg) megis Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, Estyn, ac archwilwyr, neu i bartneriaid lleol.

## Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau masnachol y Coleg

Os oes rhywun yn gwsmer i wasanaeth masnachol sydd gan y Coleg (e.e. The Classroom, Glamorgan Suite, Urbasna) bydd yr wybodaeth mae unigolyn yn ei darparu i'r Coleg er mwyn eu galluogi i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw ond yn cael ei dal a'i defnyddio ar gyfer y pwrpas hwnnw, neu bwrpasau sy'n uniongyrchol gysylltiedig.

## Pobl sy'n gwneud cais am wybodaeth gan Goleg Caerdydd a'r Fro

Os yw unigolyn yn gofyn am wybodaeth gan y Coleg trwy lythyr, dros y ffôn, ebost neu drwy gyflwyno cerdyn ymholiadau neu yn dilyn apwyntiad, bydd y Coleg yn cofnodi'r ymholiad a bydd yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn darparu ymateb i'r unigolyn. Ni fydd ond yn defnyddio'r wybodaeth at y pwrpasau hyn ac i ddarparu gwasanaeth dilyn i fyny er mwyn sicrhau ei fod wedi darparu'r unigolyn gyda'r hyn wnaethant holi amdano.

## Cael mynediad at eich gwybodaeth bersonol eich hun

Mae gan unigolion yr hawl i ofyn am gopi o unrhyw wybodaeth bersonol sy'n cael ei dal gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Gallant wneud 'cais mynediad at bwnc' o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Y ffordd rwyddaf o wneud cais yw anfon ebost at y Swyddog Gwarchod Data dataprotection@cavc.ac.uk.

## Gwneud cais am ddileu data personol

Un o'r prif egwyddorion sy'n sail i GDPR yw hawl yr unigolyn i holi am i ddata personol gael ei ddileu neu ei dynnu i ffwrdd lle nad oes rheswm digonol am iddo barhau i gael ei brosesu. Gelwir hyn hefyd yn 'hawl i gael eich anghofio'.

Y ffordd rwyddaf o wneud cais yw anfon ebost at y Swyddog Gwarchod Data dataprotection@cavc.ac.uk.

Nid yw'r Ddeddf Gwarchod Data 2018 yn rhoi'r hawl diamod i'ch gwybodaeth bersonol gael ei dileu gan sefydliad (er enghraifft nid oes angen iddynt ddileu gwybodaeth bersonol os oes rhaid iddynt ei gadw yn ôl y gyfraith, neu gael rheswm digonol arall dros ei gadw), a bydd y Coleg yn ystyried ceisiadau o'r fath ar sail bob cais yn unigol.

Unrhyw geisiadau gan unigolion i:

- gael data personol anghywir wedi'i gywiro (yr hawl i gywiriad)
- gyfyngu neu atal eu data personol (yr hawl i gyfyngu ar brosesu),
- gael ac ailddefnyddio eu data personol at eu pwrpas eu hunain ar draws gwahanol wasanaethau (yr hawl i gludadwyedd data),
- gwrthwynebu sut mae eu data yn cael ei ddefnyddio,

a dylai hyn gael ei wneud yn uniongyrchol i'r Swyddog Gwarchod Data dataprotection@cavc.ac.uk

## Cwynion ac Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y ffordd mae'r Coleg yn casglu ac yn defnyddio data personol, neu yr hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data dataprotection@cavc.ac.uk.

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch y ffordd mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi delio, neu wrthi'n delio gyda'ch gwybodaeth bersonol, neu eich bod yn dymuno gwneud cwyn oherwydd nad ydym wedi cydymffurfio gyda'n hymrwymiadau, gallwch wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Dylech godi unrhyw gwynion o fewn tri mis o'ch cyswllt ystyrlon diwethaf gyda'r Coleg. Mae manylion ynghylch sut i wneud hyn i'w cael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/concerns/handling

Drwy'r post: Os yw eich tystiolaeth gefnogol ar ffurf copi caled, gallwch argraffu'r ffurflen a'i phostio at yr ICO (ynghyd â'r dystiolaeth gefnogol) at:

Cyswllt Cwsmer
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow SK9 5AF

## Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Bydd y Coleg yn adolygu'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rheolaidd ac mae'n cadw'r hawl i'w newid fel y mae angen o bryd i'w gilydd, neu os yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi'n syth ar y wefan.

### Lleoliad a Mynediad at yr Hysbysiad

Mae hwn ar gael ar y wefan/mewnrwyd staff ac efallai na fydd yn gyfredol os yw wedi'i argraffu. Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

**Dyddiad cymeradwyo:** 20/02/2024

**Cymeradwywyd gan:** CQSA

**Dyddiad Adolygu Nesaf:** 20/02/2026

**Rheolwr Cyfrifol:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg

**Arweinydd Gweithredol:** Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol

**Hygyrch i Fyfyrwyr:** Ydi



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 2 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 01/03/2023 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 01/03/2024 |